**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 8 Mawrth 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Paula O'Connor (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | A J Jeffery | J W Jones |
| M B Lewis | M W Locke | S Pritchard |
| K M Roberts | L V Walton | T M White |

**Aelod(au) Lleyg**

Julie Davies

Philip Sharman

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R C Stewart | Arweinydd y Cyngor |
| Y Cynghorydd A S Lewis | Dirprwy Arweinydd y Cyngor |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Ness Young | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro |
| Sarah Lackenby | Prif Swyddog Trawsnewid |
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |
| Simon Cockings | Prif Archwiliwr |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Nick Davies | Archwiliwr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Sefydliadau Cynrychioliadol**

| | |
|---|---|
| Gillian Gillett | Archwilio Cymru |
| Non Jenkins | Archwilio Cymru |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Gordon Anderson

## 93 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd Cynghorwyr M B Lewis a T M White gysylltiad personol â Chofnod Rhif 96 - Datganiad o Gyfrifon Drafft 2021/22.

Datganodd Julie Davies gysylltiad personol â Chofnod Rhif 96 - Datganiad o Gyfrifon Drafft 2021/22.

## 94 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel cofnod cywir.

## 95 Archwilio Cymru - Adroddiad Archwilio Cyfrifon - Dinas a Sir Abertawe - Drafft.

Cyflwynodd Gillian Gillett, Archwilio Cymru, yr adroddiad drafft a oedd yn crynhoi prif ganfyddiadau Archwilio Cymru o'r archwiliad o Ddatganiad o Gyfrifon 2021/22 y cyngor.

Eglurwyd bod lefel perthnasedd wedi'i gosod ar £10.37 miliwn ar gyfer yr archwiliad, ac eithrio taliad cydnabyddiaeth uwch-swyddogion - £1,000 a thrafodion partïon cysylltiedig ar gyfer Aelodau ac uwch-swyddogion - £10,000.

Ychwanegwyd bod y rhan fwyaf o'r archwiliad wedi'i gwblhau'n sylweddol heblaw am gwblhau profi'r nodyn datgelu llai, yr adolygiad terfynol o'r ffeil archwilio ac adolygu'r datganiadau ariannol diwygiedig.

Amlygwyd bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y cyfrifon unwaith y byddai'r cyngor wedi darparu Llythyr Sylwadau yn seiliedig ar Atodiad 1. Darparwyd yr Adroddiad Archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

Roedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar faterion arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, gan gynnwys y camddatganiadau a oedd wedi'u cywiro a heb eu cywiro. Darparodd Atodiad 3 grynodeb o'r cywiriadau a wnaed.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i gynrychiolydd Archwilio Cymru, ac fe'u hatebwyd yn briodol ac roeddent yn ymwneud â'r canlynol: -

- Yr hyblygrwydd i gyhoeddi dogfennau ariannol sydd wedi mynd heibio’u terfyn amser a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Lefel perthnasedd, yn enwedig diwygiadau/addasiadau a wnaed.

Nodwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyngor ddydd Iau, 30 Mawrth 2023.

Diolchodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 i gydweithwyr Archwilio Cymru am y modd y cynhaliwyd yr archwiliad ganddynt a'u hyblygrwydd yn hyn o beth.

## 96 Datganiad o Gyfrifon Drafft 2021/22.

Cyflwynodd Jeff Dong, Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 y Datganiad o Gyfrifon Drafft ar gyfer 2021/22 ac adolygiad 'er gwybodaeth'.

Amlinellwyd bod y Cyfrifon Drafft ar gyfer 2022/22 wedi'u paratoi a'u llofnodi gan Swyddog Adran 151 ar 10 Tachwedd 2022. Atodwyd copi yn Atodiad A yr adroddiad.

Roedd y cyfrifon wedi'u cyflwyno'n ffurfiol i archwilwyr y cyngor, Archwilio Cymru, a oedd wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon. Fel rhan o'r broses archwilio, trefnwyd bod y cyfrifon ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am gyfnod o bedair wythnos o 4 Ionawr i 31 Ionawr 2023.

Gofynnodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau technegol i'r Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151, ac fe'u hatebwyd yn briodol. Byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu mewn perthynas â gwahaniaethau gwariant net rhwng 2020/21 a 2021/22.

Talodd Arweinydd y Cyngor deyrnged i'r Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Adran 151 Swyddog a'r staff ariannol am eu gwaith wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon. Ategwyd sylwadau'r Arweinydd gan y Cadeirydd a'r Pwyllgor a diolchwyd y Swyddog ganddynt am ei esboniadau.

Nodwyd bod disgwyl i'r Datganiad o Gyfrifon gael ei gyflwyno i'r cyngor ar 30 Mawrth 2023.

## 97 Archwilio Cymru - Diweddariad ar Sefyllfa Ariannol Sicrwydd ac Asesiad Risg 2021-22.

Cyflwynodd Gillian Gillett, Archwilio Cymru, lythyr a oedd yn rhoi’r diweddaraf am y cynnydd ar sefyllfa ariannol y cyngor ar gyfer 2021/22, a gynhaliwyd fel rhan o broject Sicrwydd ac Asesiad Risg 2021/22 Archwilio Cymru.

Amlinellwyd mai asesiad o sefyllfa ariannol 2021/22 y cyngor rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2022 ydoedd. Nododd canfyddiadau'r adroddiad fod cyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru a'r cynnydd mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi helpu i wella sefyllfa ariannol a sefydlogrwydd y cyngor, ond roedd angen iddo ddatblygu cynllun cynaliadwy i fynd i'r afael â phwysau costau sylweddol sy'n dod i'r amlwg.

Roedd y llythyr yn manylu ar y strategaeth ariannol, cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, darparu arbedion, perfformiad yn erbyn cyllideb a phwysau cyllidebol yn y dyfodol. Roedd Arddangosyn 1 yn manylu ar fylchau ariannu blynyddol a ragwelir gan y cyngor dros y tymor canolig, a oedd yn cyd-fynd yn fras â rhagolygon y llynedd. Roedd Arddangosyn 2 yn dangos, ym mis Mawrth 2022, mai cyfanswm y bwlch ariannu tymor canolig a ragwelir gan y cyngor ar gyfer 2025/26 yw £16.7

miliwn, ychydig yn fwy o'i gymharu â rhagolygon mis Mawrth 2021. Roedd Arddangosyn 3 yn manylu ar y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn erbyn y gyllideb flynyddol.

Holodd y Pwyllgor ynghylch lefel cronfeydd wrth gefn y cyngor o'u cymharu ag awdurdodau lleol eraill a chynnydd cronfeydd wrth gefn yr ysgolion i £26 miliwn. Eglurwyd bod y cyngor mewn sefyllfa eithaf iach o ran ei gronfeydd wrth gefn o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. Ychwanegwyd mai penderfyniadau gwleidyddol oedd y polisïau o ran cronfeydd wrth gefn.

**98 Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru - Cyngor Dinas a Sir Abertawe.**

Cyflwynodd Non Jenkins, Swyddfa Archwilio Cymru, Raglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Dinas a Sir Abertawe 'er gwybodaeth'.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y diweddariad chwarterol ac yn rhestru'r canlynol: -

- Crynodeb o'r Archwiliad Blynyddol
- Gwaith Archwilio Ariannol
- Archwiliad o Berfformiad
- Astudiaethau Cenedlaethol Llywodraeth Leol sydd wedi'u cynllunio/ar waith
- Estyn
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru ac Allbynnau Eraill a Gyhoeddwyd ers mis Ionawr 2022
- Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru ac Allbynnau Eraill i'w Cyhoeddi (a gwaith arall sydd ar waith/wedi'i gynllunio)
- Adnoddau Cyfnewid Arfer Da
- Blogiau Archwilio Diweddar

**99 Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol - Methodoleg.**

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr, Simon Cockings, adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi crynodeb i'r Pwyllgor Archwilio am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i lunio'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol cyn adrodd am Gynllun Blynyddol 2023/24 i'r pwyllgor i'w gymeradwyo ar 12 Ebrill 2023.

Ychwanegwyd bod Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn darparu fframwaith er mwyn cyflwyno gwasanaeth archwilio mewnol proffesiynol, annibynnol a gwrthrychol sy'n orfodol i bob darparwr archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU. Un o ofynion y PSIAS yw bod yn rhaid llunio cynllun Archwilio Mewnol blynyddol yn seiliedig ar risgiau i bennu blaenoriaethau Archwilio Mewnol, ac i sicrhau cysondeb â nodau'r cyngor. Rhaid i'r cynllun gynnwys gwybodaeth archwilio ddigonol ar draws y cyngor cyfan er mwyn i'r Prif Archwiliwr allu rhoi barn flynyddol i'r cyngor trwy'r Swyddog Adran 151 a'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r amgylchedd rheoli sy'n cynnwys llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol.

Rhoddwyd amlinelliad o fanylion Methodoleg y Cynllun Archwilio Mewnol a rhan o ofynion y PSIAS o ran cynllunio archwilio mewnol yn Atodiad 1, darparwyd manylion y Broses Cynllunio Archwilio Mewnol Blynyddol yn y diagram yn atodiad 2, y Cynllun Archwilio wedi'i Fapio yn erbyn Blaenoriaethau Corfforaethol yn Atodiad 3 a Map Sicrwydd Dinas a Sir Abertawe yn Atodiad 4.

Ychwanegwyd bod yr Ymarfer Ymgynghori ar gyfer Cynllun Archwilio 2022/23 wedi dechrau ym mis Hydref 2021 a'i fod wedi gweld nifer o archwiliadau newydd yn cael eu hychwanegu at y cynllun archwilio. Er bod Cynllun Archwilio 2022/23 yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, rhagwelwyd y byddai'r archwiliadau arfaethedig, fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn cael eu grwpio yn y categorïau cyffredinol canlynol: Archwiliadau llywodraethu a rheoli'r cyngor; archwiliadau sylfaenol; ac archwiliadau sy'n benodol i'r gwasanaeth.

Ystyriwyd bod y broses asesu risg a'r rhaglen dreigl, yr ymarfer ymgynghori a'r adolygiad o'r cofrestrau risg yn pennu'r archwiliadau sy'n ofynnol yn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2023/24, y bu'n rhaid eu paru wedyn â'r adnoddau archwilio sydd ar gael. Yr adnoddau archwilio a oedd ar gael yn 2023/24 oedd 9.1 cyfwerth ag amser llawn, ac eithrio'r Prif Archwiliwr, a oedd heb newid ers 2022/23.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Archwilydd ystyried y canlynol: -

- Newid ffocws adolygiadau sicrwydd o gydymffurfio i effeithiolrwydd i roi mwy o sicrwydd ac ychwanegu gwerth at y gwasanaethau yn y cyngor.
- Newid i effeithiolrwydd gwasanaethau i roi mwy o sicrwydd, fel yr elfen risg yn y Map Sicrwydd yn Atodiad 4 a sicrhau bod y mesurau rheoli a ddarperir gan reolwyr yn gweithio mewn gwirionedd.
- Gan ddefnyddio ID Risg: 153 – Diogelu fel enghraifft, roedd y naratif yn ddistaw ar sut roedd Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac aseswyr budd pennaf yn perfformio o ran rôl yr awdurdod lleol, a fu'n faes her enfawr ers blynyddoedd lawer a thynnu sylw at gysylltiad y cyngor â risg.
- Roedd meysydd ychwanegol fel effaith tlodi a sicrhau bod y gwasanaethau a sefydlwyd gan y cyngor yn gweithio yn ôl y disgwyl, gan ganolbwyntio ar eu heffeithiolrwydd.

Dywedodd y Prif Archwilydd y byddai'n ystyried y sylwadau ynglŷn â'r adolygiadau sicrwydd. Ychwanegodd fod y mesurau rheoli a osodwyd gan berchnogion risg yn dyblygu'r rheini sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr risgiau ac roedd yn cytuno â'r sylwadau ynghylch effeithiolrwydd gwasanaethau.

## 100 Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol Drafft 2023/24.

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr y Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2023/24 i'w ystyried, cyn i'r cynllun terfynol gael ei gyflwyno i'r pwyllgor i'w gymeradwyo ym mis Ebrill 2023.

Roedd Atodiad 1 yn darparu'r Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2023/24 (Crynodeb) ac roedd Atodiad 2 yn darparu'r Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2023/24.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Archwilydd ystyried y canlynol ac i roi adroddiad i'r Pwyllgor am unrhyw welliannau ym mis Ebrill: -

- Archwiliadau 5 niwrnod - Nifer o ddiwrnodau lle mae archwiliadau â 5 niwrnod wedi'u neilltuo ar gyfer darn o waith ac a ellid ailystyried y rhain a nifer y diwrnodau yr edrychir arnynt a'u rhoi mewn maes i roi mwy o sicrwydd a chaniatáu digon o amser i gwblhau'r gwaith profi.
- Adran Gyllid, Archwiliadau Hanfodol – Y nifer mawr o ddiwrnodau sydd wedi'u clustnodi a chydnabod y canlyniadau cadarnhaol diweddar ar gyfer y mwyafrif o feysydd gwasanaeth, p'un a oes cyfle i leihau lefel y profi a'r defnydd ar feysydd sydd â lefel uwch o risg.

Gwnaeth y pwyllgor sylwadau ar y canlynol: -

- Bod yn ofalus o ran diwygio rhai o'r Archwiliadau Hanfodol o 2 i 3 blynedd ar y sail nad oedd unrhyw faterion wedi'u datgelu'n ddiweddar ac ystyried niferoedd staffio rhai o'r gwasanaethau.
- O bosib defnyddio ymagwedd sy'n seiliedig ar risg i'r cynllun a pheidio â defnyddio'r rhaglen dreigl.
- Ehangu adolygiadau thematig, yn enwedig o ran yr adolygiadau llai ac ehangu'r defnydd o adolygiadau hunanasesiad.
- Gohirio Strategaeth Ddigidol o'r cynllun ac effaith archwiliad *Oracle Fusion.*
- Diwrnodau salwch amcangyfrifedig sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun.

Dywedodd y Prif Archwilydd mai'r archwiliadau 5 niwrnod oedd yr adolygiadau symlach, llai a bod disgwyl iddynt gael eu cynnwys ar y rhaglen dreigl ond cydnabu y gellid defnyddio rhai o'r dyddiau hynny mewn meysydd risg uwch.

Ychwanegodd fod y Tîm Archwilio Mewnol wedi trafod Archwiliadau Hanfodol a'i fod wedi amlygu nad oedd yr archwiliadau 2 flynedd wedi datgelu unrhyw faterion o bwys a chytunodd y gellid defnyddio rhai o'r diwrnodau a glustnodwyd mewn mannau eraill. Nododd hefyd fod yr Archwiliadau Hanfodol wedi bod yn llwyddiannus yn ddiweddar oherwydd eu rheolaidd-dra. Roedd rhai hefyd wedi gostwng i gylch blynyddol oherwydd y problemau a ganfuwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Nododd hefyd fod adolygiadau thematig wedi cael eu defnyddio ar gyfer rhai o'r archwiliadau llai.

Soniodd ymhellach ei fod yn hapus i drafod â'r Cadeirydd y tu allan i'r cyfarfod.

**Penderfynwyd** bod y gwelliannau awgrymedig yn cael eu hystyried gan y Prif Archwilydd cyn i'r Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol Drafft gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gymeradwyaeth ar 12 Ebrill 2023.

## 101 Trefniadau Llywodraethu a Sicrwydd Partneriaethau Strategol Cyngor Abertawe.

Cyflwynodd Richard Rowlands, Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi gwybodaeth am drefniadau llywodraethu a sicrwydd partneriaethau strategol y cyngor.

Eglurwyd bod y Pwyllgor, ym mis Gorffennaf 2022, wedi derbyn adroddiad a oedd yn amlinellu trefniadau llywodraethu a sicrwydd y partneriaethau strategol allweddol canlynol:

- Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) Rhanbarthol De-orllewin Cymru)
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe (BGC)
- Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ranbarthol Gorllewin Morgannwg
- Bargen Ddinesig Bae Abertawe (BDdBA); a
- Partneriaeth (partneriaeth gwella ysgolion)

Roedd yr adroddiad yn darparu rhagor o wybodaeth am sut roedd llywodraethu'r partneriaethau hyn yn ymwneud â'r egwyddorion sydd yng Nghôd Llywodraethu Corfforaethol Lleol y cyngor. Roedd Atodiad 1 yn darparu manylion partneriaethau strategol Abertawe, gan gynnwys amlder y cyfarfodydd, craffu, ymgynghori, cynlluniau a strategaethau.

Nododd y Cadeirydd fod Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wedi cyfarfod unwaith yn unig, ym mis Tachwedd 2022, ac nad oedd unrhyw gyfarfodydd pellach wedi'u trefnu.

**102 Cynnydd ar y gwaith i uwchraddio Oracle.**

Cyflwynodd Sarah Lackenby, Pennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r diweddaraf a sicrwydd dros dro ar gynnydd y gwaith o uwchraddio i system *Oracle.*

Eglurwyd y byddai'r gwaith o uwchraddio *Oracle* yn mynd yn fyw ym mis Ebrill 2023, ac ar ôl hynny byddai pump i chwe wythnos o gefnogaeth wrth i’r system sefydlogi i fusnes beunyddiol y cyngor.

Yna byddai'r prosiect yn symud tuag at ddod i ben yn drefnus tan ddiwedd mis Mehefin, ac ar ôl hynny byddai archwiliad mewnol o'r prosiect yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf.

Darparwyd cefndir, cyd-destun a statws cyfredol y prosiect i'r Pwyllgor, gan gynnwys y cynnydd ar bob carreg filltir ac esboniadau ynghylch y rheini a nodwyd yn ambr yn y crynodeb carreg filltir.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i Bennaeth y Gwasanaethau Digidol a'r holl staff a fu'n rhan o'r prosiect am eu gwaith a'u hymroddiad. Ychwanegodd fod lefel uchel o hyder oherwydd bod y prosiect mewn sefyllfa fwy cyfforddus.

**103 Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus.**

Cyflwynodd Huw Evans, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus 'er gwybodaeth' a fabwysiadwyd gan y cyngor ar 2 Chwefror 2023.

Eglurwyd bod Adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar bob Prif Gyngor i baratoi a chyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus.

Mabwysiadwyd y Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus, sydd wedi'i hatodi yn Atodiad A o'r adroddiad, gan y cyngor ar 2 Chwefror 2023.

Soniodd y Cadeirydd am baragraff 2.8 o Atodiad A a oedd yn nodi bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn un o'r pwyllgorau a oedd yn gwneud penderfyniadau rheoleiddio'r cyngor. Ychwanegodd nad oedd hyn yn wir a bod angen diwygio'r paragraff.

Nodwyd y sylw a byddai'r diwygiad awgrymedig yn cael ei ystyried pan fyddai'r polisi’n cael ei adolygu yn y dyfodol.

**104 Diweddariad ar Raglen Trawsnewid y cyngor, gan gynnwys Llywodraethu.**

Cyflwynodd Ness Young, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn diweddaru’r Pwyllgor ar Raglen Drawsnewid y cyngor, gan gynnwys llywodraethu.

Amlinellwyd gweledigaeth y cyngor o ran trawsnewid ac eglurwyd, fel y cytunwyd arno gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2022, fod Cynllun Trawsnewid Corfforaethol newydd yn cael ei ddatblygu ac ar y trywydd iawn i'w gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo ym mis Ebrill 2023.

Manylwyd ar y cefndir a'r sefyllfa bresennol. Darparodd Atodiad 1 Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cyflawni Trawsnewid, Atodiad 2 Gylch Gorchwyl y Bwrdd Trawsnewid Digidol ac Atodiad 3 Gylch Gorchwyl y Bwrdd Trawsnewid y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

**105 Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.**

Adroddwyd am Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 'er gwybodaeth'.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y canlynol: -

- Cofnod Rhif 90 (08/02/2023) – Adroddiadau Archwilio Cymru – Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon sero net erbyn 2030 – Rhoddodd y Cynghorydd A S Lewis (Dirprwy Arweinydd y Cyngor) yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel Craffu Perfformiad Newid yn yr Hinsawdd a Natur am gynnydd a byddai'n rhoi nodyn briffio i'r Pwyllgor er mwyn darparu sicrwydd.
- Cofnod Rhif 77 (11/01/2023) – Adroddiad Cwynion Blynyddol 2021/22 - Roedd y Panel Craffu Perfformiad wedi derbyn adroddiad gan yr Ombwdsmon a oedd yn dweud y byddai'r Ombwdsmon yn croesawu adborth o adolygiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i allu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol. Roedd y Cadeirydd wedi gofyn i hyn gael ei gynnwys yn yr adroddiad cwynion nesaf a byddai'r Ombwdsmon yn defnyddio'r wybodaeth hon i fwydo gwaith yn y dyfodol.

## 106 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Adroddwyd am Gynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 'er gwybodaeth’.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.14 pm

**Cadeirydd**